Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU I'W CYMRYD

09:00 – 12:00 05/10/2021

Galwad Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Grace Quantock	GQ	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Mynychwyr			
Claire Osmundsen-Little	COL	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Mark Cox	MC	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Michelle Sell	MS	Prif Swyddog Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Francis	JF	Pennaeth Gwasanaethau Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Rachel Powell	RP	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Murphy	DM	Uwch Archwiliwr	Archwilio Cymru
Darren Griffiths	DG	Rheolwr Archwilio (Perfformiad)	Archwilio Cymru
James Quance	JQ	Pennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol PCGC
Martyn Lewis	ML	Rheolwr Archwilio TG	Archwilio Mewnol PCGC
Simon Cookson	SC	Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd	Archwilio Mewnol PCGC
Nigel Price	NP	Arbenigwr Atal Twyll Lleol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Konrad Kujawinski	KK	Pennaeth Sicrwydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth Rheoleiddio	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Sophie Fuller	SF	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Robinson	JR	Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ymddiheuriadau			
Carwyn Lloyd-Jones	CL-J	Cyfarwyddwr TGCh	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Dave Thomas	DT	Cyfarwyddwr Archwilio	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Acronymau			
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	AS	Archwilio a Sicrwydd
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	PCC	Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
RhS	Rheolau Sefydlog	CAS	Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru	FCP	Gweithdrefnau Rheoli Ariannol
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	LASPAR	Cofrestr Gweinyddu Colledion a Thaliadau Arbennig

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam gweithredu
1	**MATERION RHAGARWEINIOL**		
1.1	**Croeso a chyflwyniadau** Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau Annibynnol gyflwyno'u hunain ac i'r sawl oedd yn mynychu gyflwyno'u hunain fel rhan o'r eitemau roeddent yn cyflwyno. Rhoddwyd croeso arbennig i David Murphy (Archwilio Cymru) a oedd yn bresennol i arsylwi fel rhan o broses Adolygiad Llywodraethu Gwaelodlin Archwilio Cymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi cyfarfod ymlaen llaw â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol i ystyried y papurau a diolchodd iddynt am eu hamser. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, ac yn cynnal cymaint o'i fusnes â phosibl mewn sesiwn y mae croeso i aelodau'r cyhoedd ei mynychu a'i harsylwi fel rheol. Fodd bynnag, yn unol â'r cyngor a'r arweiniad presennol mewn perthynas â Covid-19 ynghylch cynulliadau cyhoeddus, ac i weithio o gartref lle y bo'n bosibl, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cytuno y byddai cyfarfodydd Pwyllgorau Cyhoeddus yn parhau i gael eu cynnal drwy Teams a'u hadrodd drwy adroddiad tynnu sylw at y Bwrdd a thrwy gofnodion i'r cyfarfod Archwilio a Sicrwydd nesaf. Bydd y sefyllfa yn cael ei monitro'n barhaus wrth i gyfyngiadau lacio. Cynhaliwyd sesiwn breifat Rhan B ar ôl y sesiwn gyhoeddus i drafod materion nad oeddent yn briodol i'w trafod yn gyhoeddus.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau absenoldeb** Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: • Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh • Dave Thomas, Cyfarwyddwr, Archwilio Cymru	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiannau** Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei bod wedi derbyn cais gan y Gweinidog i ymuno â Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn	Nodwyd	**Cam Gweithredu:** Datganiad o

	perthynas â defnyddio cydymffurfiaeth â'r Gymraeg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac felly ei bod yn datgan yr wybodaeth hon mewn perthynas ag eitemau 3.3 a 3.4 a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Gymraeg a dysgu. Byddai'r datganiad o fuddiant yn cael ei ychwanegu at y gofrestr er mwyn cyflawnrwydd. **GWEITHRED 20211005-A01** Byddai'r Datganiad o Fuddiant ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y gofrestr.		Ddiddordeb y Cadeirydd mewn perthynas â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydymffurfiaeth y Gymraeg i'w ychwanegu at y gofrestr gan Lywodraethu Corfforaethol.
2	**BUSNES Y CYFARFOD**		
2.1	**Cofnodion cyfarfod 6 Gorffennaf 2021 sydd eto i'w cadarnhau - Cyhoeddus** Nododd y Cadeirydd na chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch cywirdeb y cofnodion. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Gymeradwyo'r** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a byddent yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	**Cofnodion cyfarfod 6 Gorffennaf 2021 sydd eto i'w cadarnhau - Preifat** Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, y dylid rhoi gwybod i sesiwn gyhoeddus nesaf y Pwyllgor am yr holl benderfyniadau a'r pwyntiau allweddol a drafodwyd yn y sesiwn breifat. Roedd yr eitem hon yn cynnwys cofnodion preifat cryno Cymraeg a Saesneg gan gynnwys penderfyniadau a wnaed yn y sesiwn honno. Nododd y Cadeirydd na chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch cywirdeb y cofnodion. **Penderfynodd y Pwyllgor:** **Gymeradwyo'r** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Iechyd Arbennig.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.3	**Cofnodion Gweithredu** **Dan arweiniad Chris Darling (CD) Ysgrifennydd y Bwrdd** Gwahoddwyd CD i gyflwyno'r Log Gweithredu. Nododd y Pwyllgor y cafwyd tri cham gweithredu o gyfarfod diwethaf y pwyllgor, yr oedd pob un ohonynt wedi'u cwblhau a'r camau	Nodwyd	Dim i'w nodi

	gweithredu wedi'u nodi yn y Cofnodion Gweithredu. Gwahoddodd y CD Julie Ash (JA) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a ddysgwyd o Adroddiad y Grŵp Cynghori ar TG a gymerwyd drwy'r grŵp dysgu sefydliadol mewnol. Darparodd JA y diweddariad canlynol: Aeth yr Aelodau i ffwrdd â chanlyniad yr adroddiad a bwydo'n ôl ar y cydymffurfiad â'r argymhellion. Y farn gyffredinol oedd bod cydymffurfiad yn uchel ond cytunwyd i ddod â'r adroddiad yn ôl i gyfarfod nesaf y Grŵp Dysgu. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI**'r log gweithredu.		
2.4	**Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor** **Dan arweiniad Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd** Gwahoddodd y Cadeirydd CD i gyflwyno Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor a gwnaeth sylwadau ar bwysigrwydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith sganio'r gorwel yng nghyd-destun tryloywder a bod yn agored. Cadarnhaodd CD mai'r eitemau a ychwanegwyd i'r cynllun ar gyfer y cyfarfod ym mis Ionawr oedd Adolygiad Llywodraethu Gwaelodlin Archwilio Cymru, yr elfen sector benodol o'r Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, y Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Archwilio Mewnol 2022/23. Yn ogystal, roedd trafodaethau ar y gweill gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol i ychwanegu elfennau perthnasol o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r cyfarfod ym mis Ionawr er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor allu ei weld a chraffu arno cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3	**ARCHWILIO AC ATAL TWYLL**		
3.1	**Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol** **Dan arweiniad James Quance (JQ)** Cynghorodd JQ y Pwyllgor fod y papur yn dilyn y fformat safonol ac o ran cynnydd, roedd yn dal i fod yn ddyddiau cymharol gynnar ond yn cyflymu, gydag ychydig o adolygiadau wedi dod i ben ac ar yr agenda. Roedd Atodiad 3.1i yn nodi rhaniad 50:50 o gwmpas y gwaith a fyddai'n cael ei adrodd i'r ddau gyfarfod nesaf ar gyfer gweddill Rhaglen y flwyddyn ariannol hon mewn pryd ar gyfer	Nodwyd ar gyfer Sicrwydd	**Cam Gweithredu:** Pwyllgor i edrych ar y themâu sy'n esblygu o'r Rhaglen Archwilio a nodi'r rheini i'w harchwilio ymhellach

	y broses adrodd ar ddiwedd y flwyddyn. Oherwydd yr amgylchedd gweithredu anodd parhaus, roedd y cynllun yn agored i newid ac os bydd unrhyw risgiau yn dod i'r amlwg, gellid addasu'r cynllun yn unol â hynny. Nodwyd y gallai Adolygiad Llywodraethu Gwaelodlin Archwilio Cymru dynnu sylw at faterion a rhoddwyd sicrwydd y gellid cwmpasu'r cynllun Archwilio Mewnol yn unol â hynny i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd a gododd o'r gwaith hwn. Dywedodd Ruth Glazzard (RG) fod angen i'r Pwyllgor gadw mewn cof sut y cafodd yr adolygiadau a'r themâu archwilio eu cyfleu i'r sefydliad ehangach. Dylai hyn barhau i fod ar agenda ehangach y Pwyllgor a dylid cymryd amser i ystyried y themâu wrth iddynt ddatblygu. **GWEITHRED 20211005-A02** Ychwanegodd CD y bydd nifer sylweddol o archwiliadau mewnol wedi bod tua diwedd y flwyddyn ariannol erbyn Pwyllgor Ebrill, a fyddai'n amser priodol i oedi a myfyrio ar y Traciwr Archwilio a nodi rhai themâu i ddychwelyd atynt a bydd yn cael ei drefnu. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** diweddariad Archwilio Mewnol ar gyfer sicrwydd.		
3.2	**Adroddiadau Adolygiad Archwilio Mewnol** **Dan arweiniad James Quance (JQ), Pennaeth Archwilio Mewnol a Martyn Lewis (ML) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** **Archwiliad Newid** Cynhaliodd yr Archwiliad Mewnol Archwiliad i adolygu sut y mae'r sefydliad wedi trosglwyddo o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd ***Rhesymol*** gref. Roedd rhai gwersi ar gyfer y sefydliad o ganlyniad i'r broses, ond nid oeddent yn arwain at argymhellion pellach gan eu bod yn benodol i'r digwyddiad. Wrth edrych tua'r dyfodol fel sefydliad, cafodd y gwersi eu nodi. Cytunwyd ar yr argymhellion a'r amserlen ar gyfer yr argymhellion oedd diwedd mis Hydref. **Dadansoddeg Data** Cyflwynodd Martyn Lewis (ML) yr adroddiad Archwilio ar Ddadansoddeg Data a oedd wedi edrych yn benodol ar ymrwymiadau, adnoddau, llywodraethu data, mabwysiadu cynhyrchion a matrics perfformiad. Cafodd yr adolygiad archwilio sgôr Sicrwydd ***Rhesymol*** gref. Nododd y Pwyllgor fod prosesau ymgysylltu da ar waith, diffiniwyd rolau, bod adnoddau ychwanegol ar waith a bod cynllun hyfforddi a datblygu parhaus.	Ar gyfer Sicrwydd	

Amlygodd ML y cynnydd da a wnaed o ran rheoli perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Roedd datblygiad o ran llywodraethu data a chreu Dangosyddion Perfformiad Allweddol mwy ystyrlon yn cael ei wneud.

Amlygwyd y canfyddiadau a roddodd wybod i'r Pwyllgor am y meysydd yr oedd angen gweithredu pellach arnynt a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y cofnodion Gweithredu Archwilio.

Cadarnhaodd David Selway (DS) fod yr adroddiad yn rhoi mewnwelediad da i sefyllfa bresennol Iechyd a Gofal Digidol Cymru a cheisiodd eglurder gan y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth a Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol ynghylch cwmpas yn y dyfodol, gan gydnabod bod hwn yn faes sy'n dod i'r amlwg ac felly roedd dealltwriaeth yn dal i fod yn ansicr o ran rolau a chyfrifoldebau. Byddai angen sgiliau newydd yn y ddau faes hyn a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai bylchau mewn adnoddau a hyfforddiant yn dechrau yn gynt na'r dyddiad a nodwyd yn yr Archwiliad ym mis Mawrth 2022.

Sicrhaodd Rachael Powell (RP) fod gwaith Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol y Pwyllgor yn mynd rhagddo ac ni chollwyd unrhyw ymarferoldeb o ran ymgymhwyso/warysau data. Yn ogystal, roedd gan Raglen yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) grŵp dadansoddeg uwch a oedd yn edrych ar faterion pwnc megis dadansoddeg uwch, sgwrsfotiaid a phroseswyr iaith naturiol ac mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r prosiectau hyn.

GWEITHRED 20211005-03 Cytunodd RP i ddod â phapur ar y swyddogaeth datblygu ac ymchwil yn ôl i'r Pwyllgor am sicrwydd.

Gofynnodd DS am gadarnhad bod cyllideb ar gyfer ehangu adnoddau yn y maes hwn. Amlinellodd RP nad oedd cyllideb benodol ar gyfer y maes twf hwn. Fodd bynnag, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn derbyn dyraniad cyllideb ar gyfer gofynion blynyddol y gellir eu rheoli ar gyfer meysydd sy'n dod i'r amlwg yn fewnol. Pe bai angen yn cael ei nodi yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a bod cyfiawnhad wedi'i ddarparu ar gyfer gofynion ychwanegol, gellid cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses gynllunio, a fyddai'n nodi'r gofynion a'r manteision y byddai'r gofynion yn eu cyflawni a sut y byddent yn gysylltiedig â'r strategaeth gyffredinol.

Gofynnodd RG am ragor o wybodaeth am argymhelliad rhif pump a oedd yn amlinellu'r adroddiadau a'r defnydd a wneir ohonynt. Cynghorodd RP ei fod yn argymhelliad teg ac roedd yn faes gwannach i'r sefydliad. I fynd i'r afael â hyn, roedd dangosyddion perfformiad a mesurau perfformiad mwy ystyrlon yn cael eu datblygu o ran y cynhyrchion data sy'n cael

Cam Gweithredu: Cytunodd RP i ddod â phapur ar y swyddogaeth datblygu ac ymchwil yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn cael sicrwydd.

Cam Gweithredu: RP i greu llinell

	eu cynhyrchu ac yn sicrhau cymeradwyaeth defnyddwyr o ran y manylebau a'r gofynion. **GWEITHRED 20211005-04** Creu llinell amser briodol ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer cynhyrchion data. **Penderfynodd** y Pwyllgor: Dderbyn y ddau adroddiad ar gyfer **SICRWYDD**.		amser briodol ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
3.3	**Adroddiad Ymgynghorol Adolygiad Safonau'r Gymraeg** **Dan arweiniad Simon Cookson (SC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Adroddiad Ymgynghorol Safonau'r Gymraeg ar gyfer GIG Cymru a oedd yn cynnwys crynodeb o'r 10 archwiliad a gwblhawyd dros y blynyddoedd diwethaf gan Archwiliad Mewnol. Dywedodd SC fod gwahanol gwmpasau ac argymhellion o fewn Safonau'r Gymraeg a oedd yn adlewyrchu lle'r oedd pob sefydliad ar y pryd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r cwmpas, y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol y dylai'r sefydliadau hynny ganolbwyntio arnynt. Amlygodd SC gynnydd da o ran deall y safonau a chael dull corfforaethol o ymdrin â hyn drwy ymgorffori'r safonau o fewn y cyfarwyddiaethau a'r isadrannau ar draws sefydliadau. Derbyniodd y Pwyllgor gadarnhad bod chwech, o'r deg adolygiad a gynhaliwyd, wedi cael sicrwydd rhesymol, cafodd tri radd gyfyngedig ac un radd nad oedd yn gymwys. Cynhaliwyd nifer o'r archwiliadau yn ystod Covid a chafodd hyn effaith wrth i sefydliadau flaenoriaethu Covid ac oedi mewn meysydd gwaith eraill. Pan oedd hyn yn wir, gellid darparu amserlenni diwygiedig os oedd angen. Gofynnodd Grace Quantock (GQ) a oedd yr adolygiadau archwilio wedi datgelu unrhyw sefydliadau enghreifftiol y gellid eu rhannu gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cynghorodd SC na allai gyfeirio at un sefydliad a oedd yn sefydliad enghreifftiol, ond beth oedd wedi deillio o'r adolygiadau oedd bod dysgu cyffredinol wedi digwydd i helpu i lywio. Roedd enghreifftiau o arferion da ond nid o sefydliadau enghreifftiol. **GWEITHRED 20211005-05** Gofynnwyd i CD rannu gydag aelodau'r Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a wnaed gan y Gweinidog, Eluned Morgan yn tynnu sylw at gyhoeddi adroddiad gwerthuso gan ymgynghorwyr allanol ARAD	Trafodwyd	**Cam Gweithredu:** CD i rannu adroddiad gwerthuso

	Research ac OB3 o 'Mwy na Geiriau', strategaeth hirsefydlog Llywodraeth Cymru fframwaith ar gynnydd a lle y gellid gwneud gwelliannau **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Drafod** yr adroddiad.		gan ymgynghorwyr allanol ARAD Research ac OB3 o 'Mwy na Geiriau'
3.4	**Adroddiad ar Ddiweddariadau i'r Cynllun Iaith Gymraeg** **Dan arweiniad Sophie Fuller, Rheolwr Llywodraethu a Sicrwydd Corfforaethol.** Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Darparodd Sophie Fuller (SF) uchafbwyntiau penodol yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys y bwriad i recriwtio Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg; roedd pum unigolyn wedi estyn allan am drafodaeth anffurfiol a gobeithiwyd y byddai'r unigolyn llwyddiannus yn cael ei benodi erbyn diwedd mis Hydref ond o ganlyniad i cyfnodau rhybudd amrywiol, yn realistig, byddai'n ddiwedd y flwyddyn nes ei fod yn y swydd Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn glir am eu Hymrwymiad i'r Iaith Gymraeg ac mae ganddynt hyrwyddwyr gweithredol o'r tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd Anweithredol. Yn dilyn ymgynghoriad â swyddfa Comisiynwyr y Gymraeg a chydweithwyr ar draws y system, mae nifer o gerrig milltir y cynllun wedi symud. Derbyniwyd adborth cychwynnol gan swyddfa'r Comisiynydd, a oedd yn cynnwys nifer o eitemau i fynd i'r afael â nhw. Byddai'r rhain yn cael eu datblygu a'u hailgyflwyno. Y nod oedd cael cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Ionawr, ond efallai y bydd hyn yn cael ei newid gan fod angen cael cymeradwyaeth swyddfa Comisiynwyr y Gymraeg er mwyn parhau. Ystyriodd SF ganfyddiadau'r adolygiad Archwilio, gan gadarnhau, er bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru am fod yn uchelgeisiol ac yn gyrru'r cynllun yn ei flaen, yn realistig heb adnodd penodol yn ei le, y byddai hyn yn cymryd mwy o amser. Ailadroddodd y RG bwysigrwydd y sefydliad yn gyrru'r cynllun yn ei flaen a mynegodd ei dymuniad bod cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol agos Dywedodd JQ ei bod yn dda gweld bod rôl Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn cael ei recriwtio. Roedd yn bwysig sefydlu naws iawn gyda'r unigolyn gan ei fod wedi cael ei weld yn dilyn archwiliadau blaenorol nad oedd rhai	Trafodwyd	Dim i'w nodi

	unigolion yn y rôl hon yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Rhoddodd Claire Osmundsen-Little (COL) sicrwydd bod arweinyddiaeth yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu'n rhagweithiol ac y byddai Grŵp Iaith Gymraeg yn parhau i gefnogi hyn gyda Chynllun Iechyd a Gofal Digidol Cymru unwaith y caiff ei gymeradwyo. Roedd y sefydliad yn awyddus i fanteisio ar y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynwyd gan y cynllun. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** cynnwys yr adroddiad a thrafod y sefyllfa.		
3.5	**Diweddariad Archwilio Cymru** **Dan arweiniad Darren Griffiths (DG), Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru** Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd dri adroddiad; adroddiad Diweddaru Pwyllgor Archwilio Cymru, Adroddiad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac Adroddiad Darlun Gwasanaethau Cyhoeddus 2021. **Diweddariad Archwilio Cymru** Tynnodd DG sylw at yr Adolygiad Llywodraethu Gwaelodlin o'r adroddiad diweddaru. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal i gefnogi dysgu ac i helpu i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol bod yr AIA yn gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Mae David Murphy yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar ran Archwilio Cymru a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022. **Adroddiad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)** Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2020. Nodwyd bod system cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol electronig gyffredin yn allweddol i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y dull 'Unwaith i Gymru' i alluogi cydlynu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn y gymuned. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod cyflwyno'r system cofnodion electronig a rennir yn gymhleth — roedd yn cymryd mwy o amser ac yn fwy costus na'r disgwyl. Er gwaethaf ymdrechion i gyflymu'r broses, mae'r rhagolygon ar gyfer derbyn yn llawn a gwireddu buddion yn parhau i fod yn ansicr. Hefyd, mae rhai materion pwysig ynghylch ymarferoldeb y system, safonau data ac adrodd am fuddion yn dal i gael eu datrys yn llawn. Nodwyd bod papur yn cael ei gynhyrchu ar	Nodwyd	**Cam Gweithredu:** Archwilio Cymru i rannu'r papur sy'n nodi cynnydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, yn dilyn ystyriaeth gan Bwyllgor y Senedd. **Cam Gweithredu:** Archwilio Cymru i roi ymateb llawn i resymau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro dros beidio â defnyddio'r system ac a yw'r sefyllfa hon wedi newid. **Cam**

	gyfer Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, sy'n nodi'r cynnydd ers mis Hydref 2020. Cytunodd Archwilio Cymru i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r Pwyllgor ar ôl iddi gael ei hystyried gan Bwyllgor y Senedd. **GWEITHRED 20211005-06** Archwilio Cymru i rannu'r papur sy'n nodi'r cynnydd, yn dilyn ystyriaeth gan Bwyllgor y Senedd. Nodwyd yn yr adroddiad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn annhebygol o fanteisio ar y system gan ei bod yn ddrutach ac nad oedd yn darparu'r un lefel o ymarferoldeb â'i system bresennol. Gofynnodd DS a oedd hyn oherwydd bod y system yn darparu llai o ymarferoldeb na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol neu a oedd Caerdydd a'r Fro yn teimlo nad oedd angen y system arno. Cytunodd DG i gysylltu â'i gydweithwyr yn y tîm Astudiaethau Cenedlaethol a darparu ymateb llawn all-lein. Cadarnhaodd DG y byddai ymgysylltu pellach â'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol er mwyn deall eu sefyllfaoedd yn well fel rhan o'r broses o baratoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer Pwyllgor y Senedd. **GWEITHRED 20211005-07** Archwilio Cymru i roi ymateb llawn am resymau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro dros beidio â defnyddio'r system ac os yw'r sefyllfa hon wedi newid. Ceisiodd DS sicrwydd y byddai CareWorks yn dal i fodoli oherwydd yr amser yr oedd y prosiect yn ei gymryd. Sicrhaodd Mark Cox (MC) y Pwyllgor fod cwmni o'r enw Advanced Health Care wedi prynu'r contract oddi wrth CareWorks a'i fod bellach yn darparu perthynas gontractiol uniongyrchol â gwasanaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dywedodd RG, er ei bod yn addysgiadol cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan DG a chydweithwyr, bod cwestiynau y dylai'r Bwrdd fod yn eu gofyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, h.y. sut oedd y strategaeth ymgysylltu newid yn symud y cynnyrch yn ei flaen. Un o feirniadaethau allweddol yr Is-gadeirydd oedd nad oedd y nifer a dderbyniodd y gwasanaeth yn gyson ar draws y bwrdd. Cadarnhaodd Julie Francis (JF) ei bod wedi rheoli'r contract hwn ers sawl blwyddyn ac wedi cytuno bod dull cymysg o'i weithredu ar draws Cymru gyfan. Cadarnhaodd JF ei bod yn hapus i weithio gyda chydweithwyr i lunio adroddiad a fyddai'n egluro'r cymhlethdodau a'r atebion i gwestiynau a dod ag ef yn ôl i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn y dyfodol. **GWEITHRED 20211005-08** JF i ddod â phapur yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd nesaf i roi sicrwydd ar y system. Darparodd COL y pwyntiau canlynol; y cyfleoedd pe bai		**Gweithredu:** JF i ddod â phapur yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd nesaf i roi sicrwydd ar y system. **Cam Gweithredu:** DG o Archwilio Cymru i gefnogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ystyried y ffordd orau o sicrhau'r Pwyllgor bod digon o ddysgu sefydliadol o'r themâu allweddol yn deillio o adroddiadau sy'n ystyried cyflwyno a gweithredu systemau cenedlaethol.

safonau data cyffredin, pe bai newid busnes cryf a chadarn a phwysigrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth genedlaethol gref yn y maes. Roedd themâu allweddol cryf yn deillio o'r adroddiad ac roedd yn bwysig bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwybod pa rôl oedd ganddo i'w chwarae i fwrw ymlaen â hyn.

GWEITHRED 20211005-09 Ystyried y ffordd orau o sicrhau'r Pwyllgor bod digon o ddysgu sefydliadol yn deillio o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr adroddiadau sy'n ystyried cyflwyno a gweithredu systemau cenedlaethol.

Cadarnhaodd DG fod yr adroddiad, o safbwynt Archwilio Cymru, wedi tynnu sylw at rai cyfleoedd dysgu a chyfleoedd allweddol, ond hefyd yn tynnu sylw at yr heriau wrth gyflwyno system feddalwedd gymhleth ar draws sector mawr a chymhleth. Cafodd Archwilio Cymru ei galonogi gan yr ymatebion a ddaeth i law a byddai'n hapus i ddod yn ôl i gefnogi unrhyw adroddiad atodol ar gyfer y Pwyllgor gan ddefnyddio gwersi a chyfleoedd allweddol a nodwyd, ond hefyd yn cysylltu â darnau eraill o waith cenedlaethol sydd wedi'u cwblhau (megis adolygiad o Profi Olrhain Diogelu) sy'n tynnu sylw at gyflwyno rhai systemau Cymru gyfan yn llwyddiannus.

Penderfynodd y Pwyllgor:

NODI adroddiad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar gyfer **SICRWYDD**

Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021.

Amlygodd DG bwyntiau allweddol yn yr adroddiad:-

- Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif dueddiadau ym maes cyllid cyhoeddus.
- Mae'n nodi persbectif annibynnol o Archwilio Cymru ar rai o'r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn sail i'r adroddiad roedd cyfres o grynodebau sy'n benodol i'r sector sy'n nodi ffeithiau allweddol a dadansoddiad. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi dros y pedair wythnos nesaf.

Mae'r adroddiad yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r wlad; argyfwng Covid, newid yn yr hinsawdd a'r sefyllfa economaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf y rhagolygon brawychus, cafwyd cyfleoedd. Roedd y pandemig wedi dangos cryfderau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y dylid adeiladu

	arnynt nawr i wella'r ffordd y darparwyd gwasanaethau ymhellach. Gwnaeth COL sylw ar yr adroddiad, yn benodol ar Arddangosyn 12, a oedd yn dangos twf y boblogaeth a'r newid yn y demograffig i boblogaeth hŷn. Nodwyd effeithiau Brexit a nodwyd yr hyn yr oedd yn ei olygu i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn ogystal, sut y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru leihau ei ôl troed carbon, mewn perthynas yn arbennig â'r gadwyn gyflenwi. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus ar gyfer **SICRWYDD**		
3.6	**Cofnodion Gweithredu Archwilio** **Dan arweiniad Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol** Cadarnhaodd JA fod cynnydd da wedi'i wneud ac yn dilyn y cyfarfod diwethaf pan gytunwyd bod 6 o'r camau gweithredu, o'r 10 a nodwyd, wedi'u cwblhau, gyda 4 cam gweithredu ar agor. Dywedodd JA fod 1 o'r camau hyn wedi cael ei gwblhau gyda 2 o'r rhai sy'n weddill yn cael eu dangos fel melyn (ar y trywydd iawn) ac 1 fel coch (methwyd y dyddiad targed). Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r camau gweithredu agored a ddiweddarwyd a chytuno i gymeradwyo'r cam gweithredu a gwblhawyd. Dywedodd JA fod y camau agored yn ymwneud â Chofrestr Gweinyddu Colledion a Thaliadau Arbennig (LASPAR), Pontio'r Ganolfan Ddata a Seiberddiogelwch a gofynnwyd am ddyddiad targed diwygiedig ar gyfer y camau gweithredu LASPAR tra bo'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau. Cytunwyd ar hyn. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** camau gweithredu oedd yn weddill a'r gwaith arfaethedig i gau'r cam gweithredu.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.7	**Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol** **Dan arweiniad Nigel Price (NP), Swyddog Atal Twyll, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** Cynghorodd Nigel Price (NP) fod 10.5 diwrnod o gymorth atal twyll wedi'i gwblhau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru heb unrhyw ymchwiliadau wedi'u cynnal. Rhoddodd NP yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod	Nodwyd	Dim i'w nodi

	diweddar gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Phennaeth Cyfrifyddu Rheoli i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer Asesiadau Risg. Maes arall o bryder oedd y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar wiriadau cefndir gan asiantaethau ar gyfer staff asiantaeth a anfonwyd at Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Atgoffwyd yr aelodau fod Craig Greenstock, Pennaeth Atal Twyll yn ymddeol a oedd yn gadael swydd wag a gobeithiwyd y byddai'n cael ei llenwi erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd swyddog gweinyddol hefyd wedi gadael a oedd yn golygu bod yr adran yn rhedeg ar gapasiti o 50%. Roedd proses recriwtio ar y gweill i ddod â'r adran yn ôl i gapasiti llawn ond yn y cyfamser byddai'r tîm Atal Twyll yn parhau i ddarparu dyraniad diwrnodau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cafodd yr Aelodau sicrwydd, er gwaethaf y gostyngiad presennol mewn adnoddau, nad oedd unrhyw beth wedi llithro drwy'r rhwyd ac y byddai unrhyw ymddygiad amheus yn cael ei adrodd i'r adran. Cadarnhawyd bod polisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i fynd i'r afael ag unrhyw dwyll a bygythiadau posibl. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol		
	Egwyl		
4	**ADRODDIADAU CORFFORAETHOL**		
4.1	**Adroddiad Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd yn cynnwys y Gofrestr Risg Corfforaethol** **O dan arweiniad Chris Darling** Amlygodd CD i'r Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran proffil risg. Roedd 19 o risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chafodd 15 eu cynnwys yn y sesiwn gyhoeddus, ac roedd 4 yn ymwneud â risgiau seiber i'w hystyried yn y cyfarfod preifat. Rhoddodd CD gyngor i'r Pwyllgor ar ddiweddaru'r Risgiau a thynnu sylw at y newidiadau a wnaed i'r gofrestr ers y cyfarfod diwethaf: • Roedd risg 0271 Fy Iechyd Ar-lein wedi'i dileu yn dilyn deialog lwyddiannus gyda'r cyflenwr. • Gostyngwyd risg arall 0270 sef Balansau Llwythi Etifeddol. Roedd yr holl wasanaethau bellach wedi symud i offer newydd a gefnogir. Trefnwyd profion i sicrhau nad oes unrhyw gysylltiadau anhysbys yn	Trafodwyd	**Cam Gweithredu:** MS i ddod â phapur i'r cyfarfod nesaf yn amlinellu rhagolygon twf recriwtio staff a swyddi gwag.

parhau a gostyngwyd y risg o 20 i 6.

- System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC) yw'r risg uchaf o hyd oherwydd i'r amserlen ar gyfer gweithredu lithro i Fawrth 2022.
- Neilltuwyd risgiau corfforaethol i Bwyllgorau; roedd Llywodraethu a Diogelwch Digidol wedi gofyn am adroddiad at wraidd y mater yn ei gyfarfod nesaf.
- Neilltuwyd tair risg i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd; swyddi gwag staff, strategaeth dogfennau a chydymffurfiaeth â'r Gymraeg.

Cyfeiriodd CD at y drafodaeth gynharach ar gydymffurfio â'r Gymraeg a chadarnhaodd bod y Grŵp Safonau'r Gymraeg yn cyfarfod yn fisol i adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau. Roedd cynllun gweithredu yn mapio'r safonau i safbwynt Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gafodd ei sgôr coch melyn gwyrdd (CMG). Mae 121 o safonau, gyda 2 ohonynt yn cael sgôr CMG fel coch a 5 fel oren, mae'r safonau sy'n weddill yn cael eu sgorio naill ai fel gwyrdd neu ddim yn berthnasol i DHCW. Roedd rhai meysydd yn gofyn am waith pellach e.e. defnyddio cyfarchiad dwyieithog ar brif rif y switsfwrdd.

Rhoddodd Michelle Sell (MS) ddiweddariad ar y swyddi gwag sy'n parhau i fod yn her. Mae nifer o fentrau wedi'u sefydlu, gan gynnwys Tasglu Recriwtio a gyfarfu yn wythnosol, ymgysylltu ag asiantaethau recriwtio i gynorthwyo gyda rolau arbenigol a ffair recriwtio.

Bu rhywfaint o lwyddiant wrth gynyddu'r hyn sy'n gyfwerth ag amser llawn i'r targed a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ond oherwydd dyraniad pellach o gyllid, yn bennaf drwy'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF), roedd y targed wedi cynyddu. Roedd cynlluniau yn mynd rhagddynt i fynd i'r afael â'r mater hwn a oedd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a ffocws wedi'i dargedu ar feysydd fel Profi, Olrhain, Diogelu.

Cynghorwyd yr Aelodau nad oedd y duedd o swyddi gwag yn gostwng gan fod 130 o apwyntiadau wedi bod ers i'r Tasglu fod ar waith ond oherwydd y cynnydd yn y targed recriwtio, nid oedd y sefyllfa'n gwella.

GWEITHRED 20211005-10 Cytunodd MS i ddod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ionawr i amlinellu'r amcanestyniad twf o recriwtio staff.

Dywedodd MS wrth y Pwyllgor fod adolygiad ar arferion recriwtio ar y gweill i gynnwys adolygiad llawn o ddisgrifiadau swyddi a hysbysebion at nifer o ddibenion, gan gynnwys 'rhagfarn anhysbys'. Nodwyd bod lefel uchel o

	ddiddordeb mewn hysbysebion swyddi ar-lein ond bod lefel is o ddilyniant wrth wneud cais am swyddi, a arweiniodd at ymchwiliadau pellach pam nad oedd yr ymgeisydd posibl yn parhau. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar estyn allan at ystod eang o sefydliadau ac ymgeiswyr posibl. Mae aelod o dîm y gweithlu yn mynychu cyfweliadau i adolygu unrhyw ragfarn megis recriwtio yn eu delw eu hunain. Cytunodd MS i drafod gyda Phennaeth y Gweithlu yr awgrym a roddwyd i ymgysylltu â sefydliadau allanol i adolygu pa brosesau recriwtio a allai fod yn atal ymgeiswyr posibl. Anogir cyfweliadau ymadael fel arfer safonol pan fydd gweithiwr yn gadael y sefydliad a datgelodd adborth gan Bennaeth y Gweithlu gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys symud ymlaen i sefydliadau eraill y GIG, er y bu ychydig o bobl sydd wedi gadael yn fuan ar ôl ymuno â'r sefydliad a oedd yn destun pryder. Crëwyd nifer o gamau gweithredu o ganlyniad i drafodaethau gyda'r unigolion hyn gan gynnwys system 'gyfaill' a oedd yn ceisio neilltuo aelod newydd o staff gyda rhywun a all eu cefnogi ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae'r Gweithgor Ffyrdd Newydd yn edrych ar yr effaith y mae gweithio o bell yn ei chael ar ddiwylliant a llesiant staff nad ydynt yn cwrdd wyneb yn wyneb. Roedd yn arbennig o bwysig i aelodau newydd o staff gwrdd â chydweithwyr er mwyn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt o fewn y sefydliad. Dywedodd COL wrth y Pwyllgor fod y risg o Strategaeth Rheoli Dogfennau yn ymwneud â symud i Office 365 a chafodd hyn ei bwysleisio drwy ddod yn Awdurdod Iechyd Arbennig o ran cael dull mwy cyson o reoli a chadw dogfennau. Cynhaliwyd gweithdai Rheoli Dogfennau yn ystod mis Medi. Yn dilyn hynny, drafftiwyd polisi Rheoli Cofnodion a Dogfennau lefel uchel cyntaf. Roedd cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sgorau archwilio. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Nodi'r** Adroddiad Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys y Gofrestr Risg Corfforaethol		
4.2	**Datganiadau o Fuddiannau, Anrhegion a Lletygarwch** **O dan arweiniad Chris Darling** Gwahoddwyd CD i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y Datganiadau o Ddiddordeb, Rhoddion a Lletygarwch.	Sicrwydd	Dim i'w nodi

	Dywedodd CD yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor bod yr holl ddatganiadau o fuddiannau wedi'u cofnodi ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a'u cyhoeddi. Gwnaed cynnydd sylweddol ers y cyfarfod diwethaf gyda 147 o 195 o uwch reolwyr yn ymateb ac yn cael eu hychwanegu at y gofrestr. Roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r tîm Cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau Polisi Ymddygiad drwy'r cylchlythyr staff. Tynnodd CD sylw'r Pwyllgor at 4 datganiad o roddion, lletygarwch a honoraria, a derbyniwyd, derbyniwyd a chymeradwywyd 2 ohonynt gan y Prif Weithredwr a gwrthodwyd 2 ohonynt. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **DDERBYN** Adroddiad Datganiadau Buddiannau, Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer **SICRWYDD** .		
4.3	**Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel** **O dan arweiniad Mark Cox (MC)** Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf ac roedd yn cyflwyno archebion dros £750 mil a gynhyrchwyd ers y dyddiad hwnnw. Ar hyn o bryd, roedd cyfanswm yr archebion yn £27.7m ac yn cwmpasu 4 maes penodol: • Ymateb Covid 19 - roedd yna 3 gorchymyn gwahanol:- Trustmarque, Solgari ac ateb amserlennu brechlynnau imiwneiddio • Cytundeb Microsoft Enterprise Sicrhawyd y Pwyllgor bod unrhyw wybodaeth benodol am werthoedd archebion yn cael ei golygu er mwyn lleihau unrhyw weithgarwch gwrth-dwyll posibl. Nododd RG y ddarpariaeth o wybodaeth gronnus a phwysleisiodd y nifer fawr o archebion am symiau llai i rai cyflenwyr. Gofynnwyd i'r rhain gael eu holrhain er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod lefel gyfartal o graffu ar orchmynion a oedd yn is na'r trothwyon i gael mwy o graffu arnynt, yn enwedig os oeddent yn niferus. **GWEITHRED 20211005-11:** Y Pwyllgor i gael archebion wedi'u holrhain am symiau llai gan yr un cyflenwr. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Nodi'r** Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel	Nodwyd	**Cam Gweithredu:** Y Pwyllgor i gael archebion wedi'u holrhain am symiau llai gan yr un cyflenwr.

4.4	**Gweithdrefn Rheoli Cyfalaf** **O dan arweiniad Mark Cox** Cynghorodd MC y weithdrefn hon a oedd yn cyd-fynd â'r weithdrefn gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ac roedd hi'n destun ymgynghoriad tan 19 Hydref. Darparodd y weithdrefn eglurhad ar rolau a chyfrifoldebau unigolion Sicrhawyd y Pwyllgor bod y rolau a'r cyfrifoldebau yn cael eu cyfleu i unigolion drwy'r Grŵp Cyflenwi Cyfalaf a Chostau nad ydynt yn ymwneud â Thâl, sef y cyfrwng ar gyfer yr holl fuddsoddiad cyfalaf yn y sefydliad. Dyma lle byddai'r cyfathrebu yn digwydd rhwng yr aelodau staff penodol ac eglurhad o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Hysbyswyd y Pwyllgor, fel rhan o'r cynllun blynyddol a'r broses ddirprwyo cyllideb, yr ysgrifennwyd at bob deiliad cyllideb unigol i gadarnhau a chydnabod ei gyfrifoldebau o ran refeniw a chyfalaf. Darparwyd dolenni uniongyrchol at y CASau priodol hefyd i ddeiliaid y gyllideb lynu atynt. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y Weithdrefn Rheoli Cyfalaf yn ymwneud â sicrwydd a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau sydd ar waith i gefnogi hyn. Roedd y templedi wedi eu diweddaru ac maent bellach wedi'u halinio'n fwy digidol nag yr oeddent o dan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Gymeradwyo'r** Weithdrefn Rheoli Cyfalaf	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
4.5	**Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo** **Dan arweiniad Julie Francis (JF)** Gwahoddodd y Cadeirydd JF i gyflwyno'r adroddiad a llongyfarchodd y tîm Gwasanaethau Masnachol a enillodd wobr Ymateb Covid 19 Eithriadol yn seremoni wobrwyo meddygon teulu eleni. Nododd y Pwyllgor y diweddariad mewn perthynas â gweithgaredd caffael ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a oedd yn cynnwys adrodd am 4 Cam Dyfynbris Sengl a 3 estyniad Tendr a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst. Nododd y Pwyllgor hepgoriad o fewn y papur, oherwydd fformatio, a oedd yn ymwneud â defnyddio a monitro'n briodol. Pwysleisiodd RG, wrth adrodd ar y gwerth uchaf o gaffael, ei bod yn bwysig sicrhau na chafodd gwybodaeth hanfodol ei hepgor er mwyn sicrhau tryloywder a sicrwydd. Cafodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch contract System	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Imiwneiddio Cymru y byddai'n cael ei fonitro'n fisol. Roedd rhai materion anhysbys yn gysylltiedig â'r contract megis yr atebion archebu a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar faint y defnydd yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r costau yn y llythyrau gwahodd a negeseuon testun. Fodd bynnag, roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu porth digidol archebu ar-lein a fyddai ar gael yn gynnar yn y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd MS mai dim ond ar gyfer Covid yr oedd System Imiwneiddio Cymru yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gyda mecanweithiau presennol yn eu lle ar gyfer y ffliw a rhaglenni brechu eraill. Adolygiad parhaus ar y gweill ar sut y gellir defnyddio swyddogaeth System Imiwneiddio Cymru ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo		
4.6	**Adroddiad Cydymffurfiaeth Ystadau** **O dan arweiniad Julie Ash** Gwahoddwyd JA i roi'r adroddiad Cydymffurfiaeth Ystadau a oedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Awst 2021. Cynghorwyd y Pwyllgor fod cynnydd da wedi'i gynnal gyda chydymffurfiaeth gyffredinol o dros 95%. Roedd gwaith ar y gweill ar gyflwyniad i amlinellu datblygu cynllun ar gyfer Strategaeth Datgarboneiddio'r GIG a byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd nesaf ym mis Ionawr. **GWEITHRED 20211005-12** Cynllun datblygu Strategaeth Datgarboneiddio'r GIG ar ffurf cyflwyniad i'w ddwyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Cynghorwyd y Pwyllgor fod sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar gyfer ein hadeiladau ar gael. Roedd yn bosibl dylanwadu ar rai elfennau a oedd yn bwydo i mewn i'r EPC megis yr allyriadau o adeiladau ond nid eraill a oedd yn ddibynnol ar adeiladwaith yr adeiladau. Mewn perthynas â meincnodi, dywedodd JA fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymuno â dau fforwm; Cyd-fforwm Iechyd ac Ystadau a oedd yn cynnwys Byrddau Iechyd eraill a Llywodraeth Cymru a fforwm Ystadau ledled y DU a oedd yn rhannu gwybodaeth am ystadau fel mater o drefn. **GWEITHRED 20211005-13** Cytunodd JA i ddod â diweddariad ar yr wybodaeth a rennir yn y ddau Fforwm Ystadau yn ôl i'r	Nodwyd	**Cam Gweithredu:** JA i gyflwyno cyflwyniad ar gynllun datblygu ar gyfer y strategaeth datgarboneiddio i'r Pwyllgor nesaf **Cam Gweithredu:** JA i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr wybodaeth a dderbyniwyd gan y ddau fforwm Ystadau.

	Pwyllgor nesaf. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Nodi'r** cynnydd da a wnaed ar yr Adroddiad Cydymffurfiaeth Ystadau.		
4.7	**Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio** **O dan arweiniad Konrad Kujawinski (KK)** Rhoddwyd yr uchafbwyntiau allweddol i'r Pwyllgor:- • Yr heriau a'r amcanion oedd cynyddu amlygrwydd ac ymgysylltu ag ansawdd yn y sefydliad. • Roedd ymgynghoriad ar y rheoliadau newydd ar Ddyfeisiau Meddygol. Roedd rhan o'r gwaith yn cynnwys addysgu gweddill Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r effaith y bydd dyfeisiau meddygol yn ei chael pan fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyhoeddi. Dywedodd KK wrth y Pwyllgor mai'r heriau mwyaf o ran ansawdd oedd recriwtio a sefydlu'r tîm newydd, ond erbyn hyn roedd y tîm ar waith. Roedd yr heriau yn canolbwyntio ar gynyddu amlygrwydd ansawdd a rheoleiddio ar draws y sefydliad. Roedd rhaglenni ar waith ar sut i fynd i'r afael â hyn. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **Nodi'r** adroddiad.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.8	**Polisi Rheoli Asedau TG** **Dan arweiniad Julie Francis** Tynnodd JF sylw at y ffaith fod y polisi yn hanfodol er mwyn darparu canllawiau, cysondeb, atebolrwydd, effeithlonrwydd ac eglurder o ran sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu mewn perthynas â rheoli Asedau TG. Roedd polisi wedi bod ar waith i reoli Asedau TG am ddegawd ac roedd y polisi hwn yn cynrychioli'r trydydd fersiwn i adlewyrchu cyfeiriad strategol a gweithredol presennol y sefydliad a hefyd i fodloni safonau achredu ISO. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y polisi asedau yn ymwneud â phob ased, boed yn cael ei ddatblygu'n fewnol neu ei brynu gan sefydliadau trydydd parti. Hysbyswyd y Pwyllgor bod disgwyliad o gylch oes 6-7 mlynedd ar gyfer gliniaduron cyn y byddai angen eu disodli. Ychwanegodd MC y defnydd o'r polisi hwn a sut y mae'n cysylltu, ond nid oedd yn union yr un fath â'r ased sefydlog. O	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

	ran yr eitemau a nodir yn y gofrestr a'r ffordd y cânt eu rheoli a'u cynnal, byddant yn wahanol ac ar wahân i asedau sefydlog **Penderfynodd y Pwyllgor:** **GYMERADWYO'R** Polisi Rheoli Asedau TG.		
4.9	**Protocol Gwasanaethau Masnachol Nwyddau a Gwasanaethau Am Ddim** **Dan arweiniad Julie Francis** Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cynnwys cyfres o brotocolau y dylid glynu atynt ar draws y sefydliad a nodi'r rhesymeg yr oedd angen i gydweithwyr ei darparu wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Dywedodd JF wrth y Pwyllgor fod cofrestr ganolog a gynhaliwyd gan y tîm gyda pherson arweiniol yn cael ei ddyrannu i unrhyw broses gaffael newydd i wirio a oedd cyflenwr wedi cyflenwi nwyddau am ddim i'r sefydliad o'r blaen. Yna, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Rheoli. Cynhaliwyd archwiliadau ar ddechrau a diwedd y broses gaffael yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau a chofnodwyd unrhyw feysydd gwella, a gweithredu arnynt. Dywedodd COL wrth y Pwyllgor fod y mater hwn wedi dod i'r amlwg ar ddechrau'r pandemig Covid wrth i lawer o bobl wirfoddoli eu gwasanaethau ac roedd llawer o gynigion o nwyddau am ddim. Darparodd y Prif Swyddog Gweithredu ddisgyblaeth gadarn ynghylch y broses hon. Roedd olrhain a chofrestru nwyddau am ddim yn rhan weithredol o'r prosesau ac roedd y dysgu yn sail i'r polisi a oedd bellach yn ei le. Cadarnhaodd JF fod y polisi hwn yn ddogfen fyw a'r bwriad oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu bod yn rhaid dilyn protocolau. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **GYMERADWYO'R** Protocol Gwasanaethau Masnachol Nwyddau a Gwasanaethau Am Ddim	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
5	**MATERION I GLOI**		
5.1	**Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd** Nododd y Cadeirydd yr eitemau a gymeradwywyd, a gefnogwyd ac a drafodwyd i'w cynnwys yn adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
5.2	**Unrhyw Faterion Brys eraill** Dim i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi

5.3	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf:** 18 Ionawr 2022	Nodwyd	Dim i'w nodi